**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

18 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Cyfeiriaf at fy llythyr atoch dyddiedig 5 Chwefror. Dymunaf hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol osod y Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol etc.) 2024 o ran Cymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld sub-ld16411-w.pdf (senedd.cymru).

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban.

Gwnaed y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Erthygl 85 ac Erthygl 83A(2) o Reoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol (EU) Rhif 528/2012 Prydain Fawr (GB BPR) (addasu i gynnydd gwyddonol a thechnegol). Roedd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 13 Mawrth 2024. Y dyddiad cychwyn yw 06 Ebrill 2024.

Dim ond i'r Ysgrifennydd Gwladol y mae deddfwriaeth bresennol yn darparu pŵer i wneud rheoliadau ond mae gofyniad am gydsyniad, ac er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, yn yr achos hwn, ystyriwyd ei bod yn briodol i hanfod y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru am fod y Rheoliadau yn dechnegol eu naws ac nad ydynt yn arwain at unrhyw newid o ran polisi. Nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes darpariaeth sy'n caniatáu imi ddeddfu ar wahân i Gymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**